Cofnodion draft Cyngor Cymuned Llanbedr a gyfarfu nos Iau Hydref 3ydd am 7.30 yn y Neuadd.

Yn Bresennol

Eirwyn Thomas, Annwen Hughes, Gwynfor Owen,  Helen Johns, John Evans,

Ymddiheuriadau

Jane Taylor Williams, Robin Ward, Luise Vassey, Kevin Titley. Nia Jones

*Gair gan Eirwyn Thomas – yn cadeirio y cyfarfod yn absennoldeb y Cadeiryddes. Yn egluro mae ychydig oedd yn bresennol, ond digon I gael quorum. Methiant oedd cael rfon Hughes ar zoom unwaith yn rhagor.  Bydd rhaid trio eto.

*Datgan Buddiant – Gwynfor Owen yn datgan buddiant – cyfarfod un Llais Cymru gyda adolygiad gwasanaeth tan

*Cais Cynllunio

Rhif     NP5/62/426A

Sef Tir ger Plas Gwynfryn, lleoli carafan statig I ddarparu llety preswyl ategol I Gwynfryn Bach, Llanbedr.

Y Cyngor yn cefnogi y datblygiad yma, er mwyn hwyluso trefniadau I ofalu am berson oedrannus.

Sefyllfa Mynwent Capel y Ddol !!! Scaffoldia yn rhwystr I fynd a carreg fedd yno. Pryder gyda posibilrwydd o orfod agor bedd, ond rhaid cofio bod rhaid rhoi rhybudd o 7 diwrnod I berchnogion y Capel. Oes modd holi Parc Cenedlaethol beth yw'r oedi?

Adroddiad Cyllid

Yn y banc diwedd Medi = £29494.96

Angen talu a cymeradwyuo y taliadau canlynol

1. £100        Martin Kerr am gladdu llwch mewn bed teulu.
2. Ad daliad zoom I'r Clerc – 6 mis = £323.94  .  Hwn yn codi £6.40 y misyn mis Hydref.
3. Cyflog + costau Clerc = £1051.96
4. HMRC = £133.40
5. Accountants payee = £60.00
6. Drws tan Cylch Meithrin = £ 1800  (dim yn gofrestredig gyda TAW). Talu hwn yn lle y cyfraniad o £1500 iddynt.  Pawb yn gytun gyda hyn.
7. Anfoneb Delyth Williams    £40.00
8. Anfoneb am gyfieuthu Arfon Hughes mis diwethaf £125
9. Anfoneb Dyffryn Iron Designs   = £ 180
10. Anfoneb torri y fynwent     = £200

Cyfanswm o £4014.30

Yn gadael £25480.66

Mae yma hefyd anfoneb gan Tree Fella am glirio coeden oddi ar lwybr cyhoeddus am £80. Ddim am dalu hwn yn awr gan nad oedd hyn wedi ei gymeradwuo gan y Cyngor. Gwaith wedi ei wneud ond neb wedi cymeradwuo y Gwaith. !!!

Materion eraill yn codi

- Adroddiad Mewnol – copi I bawb. Angen cwtogi peth ar hwn!! Gwnaethpwyd addasiad o hwn a'u gymeradwuo fel ei fod yn addas ar gyfer anghenion Cyngor Llanbedr.

Y Fynwent – Gwaith angen ei neud

- Diwrnod tocio a thacluso. Dyddiad I'w basio. Gwirfoddolwyr dros 16 oed yn gallu gwneud y Gwaith yn uno lar insurance.
- Y gwrych – pris a phroblemau fydd yn codi. Wedi cael 1 pris o £450 , ond ddim yn gallu gwneud y top ochr Ardudwy. Angen hefyd symud y gwastraff ail gylchu compost ar fframiau pren. Nid y w hyn yn y pris. Felly yn mynd a'r pris yn uwch na £500 – ac angen cael ail bris.

Pasiwyd I ofyn I Elgan Pugh am bris (mae I fod I ddod I Cae Nest I dorri gwrych – ystyried gwneud y Gwaith yr un pry dos yw'r pris yn iawn).

Falle bydd yn rhaid edrych ar y gyllideb I weld lle mae modd trosglwyddo arian ar gyfer gwneud hyn. (Eirwyn a'r Clerc I edrych ar y gyllideb)

- Claddu llwch – codi llwch a plot felly yn dod yn wag, ac ail gladdu y casged mewn bedd teulu.
- Tyrchod yn y fynwent – wedi hysbysu Bryn Williams . Problem wedi diflannu.

  Cae Chwarae –
- G.L.Jones – wedi awdurdodi'r gwaith.
- Archwiliad o'r offer? Blwyddyn bron wedi mynd heibio ac angen cwblhau y gwaith presennol a cael archwiliad arall.
- Be nesaf – pasiwyd gofyn I gwmni arall am bris archwiliad hefyd er mwyn cael cymhariaeth.
- Bin cae chwarae – angen bin newydd – wedi hysbysu Cyngor Gwynedd o hyn.

*Sul y Cofio – hwn mewn llaw.

*Huchenfeld – Dathliad 25 mlynedd yn yr Almaen y flwyddyn nesaf. Beth fydd y trefniadau. Cafwyd crynodeb o'r hanes er budd Gwynfor Owen, ac yr oedd ganddo ddiddordeb mewn ymuno gyda'r pwyllgor. Gweld cyfleon gwych yma.

*Pwyllgor Cynghorau Ardudwy – Tachwedd 13 am 7.30

*Bydd Cyfarfod Cynefin / Adra parthed tai yn cael ei gynnal yn y dydd. 13.11.24 hefyd.

Ystafell wedi cael ei neilltuo ar gyfer hyn. Parc Cenedlaethol sydd wedi gofyn am astudiaeth yma ar gyfer anghenion lleol. Rhestr aros am dai!

- Neuadd Gymdeithasol -

Wal derfyn – o'r diwedd wedi cael 1 pris am wneud Gwaith pwyntio ar y wal derfyn £2500

Hyn yn swm mawr ac angen pris arall. Eto heb ei gynnwys yn y gyllideb. Felly edrych ar opsiynnau I drosglwyddo arian.

Bod y man hole – draen carffosiaeth wedi ei wneud.

Drws tan – hwn wedi cael ei osod. Ar gost o £1800. Cytunwyd bod Cyngor Cymuned yn talu am hwn yn lle cyfraniad o £1500

Adroddiad Cynghorwyr

Cyngh. Gwynfor Owen – adroddiad Un Llais Cymru cyfarfod dros zoom. Adroddiad manwl am wasanaeth tan. (datgan diddordeb)

*Gwyl Gwrw – llongyfarch trefnwyr y Gwyl Gwrw eleni, yn denu nifer o bobl I'r Pentref.

Wedi mynychu Cyngor llawn yn ddiweddar a chynnigion dwys wedi codi.

Bod Cyngor Gwynedd yn talu symiau sylweddol o arian I'r Goron am yr hawl I'r cyhoedd gael mynediad I fynd ar diroedd fel glannau mor a thraethau yr arfordir. Mae galw ar I hyn ddod I ben, gan ei fod yn anfoesol parhau I dalu yn sgil pwysau ariannol mawr. Talu £160,000 yn flynyddol o Gyngor Gwynedd I ystad y Goron .

Bermo yn talu £1150, Traeth Llanaber yn £1500 Hafan Pwllheli £144,990, yn rhai enghreifftiau

Bod angen gwrthwynebu y taliadau yma.

Annwen Hughes

- Wedi cwyno am y lori ail gylchu wedi gwasgaru sbwriel wrth gasglu ger Allt Goch yn ddiweddar. Hyn wedi ei glirio.
- Cyfweliadau Prif Weithredwr Parc Cenedlaethol. Llongyfarch Jonathon Cawley am ei benodi I'r swydd. Angen penaeth Cynllunio Newydd yn awr.
- Van a ceir yn parcio yn Pentre Gwynfryn. Angen cysylltu gyda Elliw Williams PCO.
- Toiledau ochr dynion wedi eu hatgyweirio.
- Wedi mynychu bore coffee Macmillan yn ddiweddar yn y Victoria.
- Tim tacluso yn dod I Lanbedr Tachwedd 9angen cadarnhad o'r diwrnod) gan bod cylch Harlech wedi ei gynnwys yn y daflen hefyd.
- Bod hi wedi cael gwahoddiad I ddigwyddiad yn y Camp gan Dave Young – drwy wahoddiad yn unig.

*Transport for Wales – toriadau I wasanaeth Trenau lein y Cambrian. Hyn eto yn codi ei ben, er y datganiad wedi y cyfarfod yn Wrecsam rai misoedd yn ol gyda TFW – Lee Robinson ac eu bod pryd hynny am ddal yn ol ar y toriadau. Ond bellach mae'r toridau yn y gwasanaeth yn anochel. Er yr ymgynghoriad . Toriadau I'r gwasanaeth boreol a hwyr . Angen cysylltu gyda Ken Skates parthed ein siom yn hyn o beth. Codi mater hefyd yn y Pwyllgor ardal Cynghorwyr Ardudwy. Bod ni fel Cyngor wedi rhoi adroddiad o nifer o bobl sy'n defnyddio y gwasanaeth – dim tocynnau yn cael eu rhoi/casglu, felly y nifer ddim yn cyfateb y defnyddwyr.

Tud 4.

*Newyddion Gwasanaeth Gwelliannau Trafnidiaeth Llanbedr – cylchlythyrRhannu hwn ar fb ac ar dudalen we y Cyngor.

Bydd cyflenwyr y llochesi bws pren y n eu gosod yn yr Hydref / Tachwedd.

Mae £400,000 ychwanegol wedi ei sicrhau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn yma – er mwyn ymgymerud gyda unrhyw waith ar gyfer cychwyn materol o safbwynt yr hawl cynllunio sydd yn ei le (ar hyn o bryd, ond yn darfod Mawrth 2025). Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y 9 amod yr hawl cynllunio sydd yn ei le drwy gyflwyno amryw o asesiadau, manylebau, a dyluniadau. Bydd peth gwaith ffisegol yn digwydd hefyd.

Linc am fwy o wybodaeth www.gwynedd.llyw.cymru/TrafnidiaethLlanbedr

Unrhyw Fater Arall

1.Eth – bod yr wyl gwrw wedi bod yn llwyddiant £17500

Pobl o bell wedi ymuno yn yr hwyl. 10 yno o Hereford, Llandudno, Bae Colwyn. Bod un person lleol wedi cael ei wahardd gan y gweithgor diogelwch. Ond fawr o helynt arall.

Bydd yr Wyl y n dathlu 20 mlynedd y flwyddyn nesaf ac eisiau syniadau newydd ar gyfer dathliad lleol. Cyngerdd, Caws a Gwin efallai.

2. Deffibulator – bod hwn wedi cael ei ddefnyddio yn ddiweddar. Angen cael padiau Newydd iddo. Tomos Hughes yn gwneud hyn 4.10.24

Nododd y Clerc bod y cas bellach yn cancro ac yn eitha peryglus I bobl cael anaf wrth geisio ei agor. Bydda Tomos Hughes yn gallu cael un am tua £425 ond bydda angen cael trydanwr I'w osod . Bod RW wedi meddwl cael rhoi hwn yn y gyllideb diwedd y flwyddyn.

Pasiwyd I edrych a oes modd trosglwyddo arian o ryw ffynhonnell arall I wneud hyn yn awr.

Materion Eraill

1. Cyfarfod zoom Un Llais Cymru – linc cyflwyniad Gwasanaeth Tan Gogledd Cymru a Llais Cymru i bwyllgor Ardal Meirionnydd 2.10.24 ar wefan www.llanbedr.com